

# Uned Genedlaethol Troseddau Bwyd yr ASB yn annog pobl i fod yn wyliadwrus rhag twyll bwyd wrth i ddyn gael ei garcharu yn dilyn ymchwiliad i ddwyn twrci a dofednod gwerth dros hanner miliwn o bunnoedd

Heddiw [Ddydd Mawrth, 27 Ionawr 2026], cafodd Liam Dooney, 53 oed o Wigan, ddedfryd o garchar ar ôl ymchwiliad ar y cyd gan yr NFCU i dwyll bwyd.

Yn Llys y Goron Bolton, dedfrydwyd Dooney i ddwy flynedd a chwe mis o garchar am drin nwyddau wedi'u dwyn gwerth dros £500,000. Rhaid iddo dreulio o leiaf hanner ei ddedfryd yn y ddalfa. Cafodd ei wahardd rhag bod yn gyfarwyddwr am saith mlynedd hefyd.

Roedd Dooney yn gweithredu cwmni storio bwyd oer yn ardal Wigan yn flaeenorol. [Roedd wedi plegio'n euog yn gynharach yn Llys y Goron Bolton](#) o drin nwyddau wedi'u dwyn, a chafodd mechniäeth ei chaniatáu.

Casglodd yr NFCU dystiolaeth ar ôl iddi gael gwybod am gyfres o droseddau lle roedd twyllwyr yn dynwared busnesau bwyd cyfreithlon yn y DU er mwyn sicrhau dosbarthiadau bwyd gan gyflenwyr tramor ac un cyflenwr yn y DU. Roedd hyn yn cynnwys manylion wedi'u clonio o fasnachfreintiau McDonald's er mwyn dwyn cargo – yn yr achos hwn, cyw iâr a thwrci.

Adferwyd 16.8 tunnell fetrig o ddofednod wedi'i ddwyn. Bu'n rhaid israddio'r cynnyrch yn ddiweddarach i fwyd anifeiliaid anwes oherwydd nad oedd modd ei olrhain.

“Rydym yn falch o'r ddedfryd hon o garchar gan ei bod yn dangos nad oes lle yn y diwydiant bwyd i unrhyw fath o weithgarwch troseddol.

Rydym yn gweithio gyda phartneriaid, gan gefnogi'r diwydiant i gyflawni ei gyfrifoldebau a lleihau'r risg o unrhyw ladrud bwyd sy'n arwain at dwyll bwyd. Mae'r achos cymhleth hwn wedi cynnwys Heddlu Manceinion Fwyaf, Cyngor Wigan, a Gwasanaeth Erlyn y Goron.

Dylai busnesau bwyd fod yn wyliadwrus o'r risg o dwyll bwyd a diogelu rhag hyn, a bod yn effro i'r potensial o gael cynnig nwyddau wedi'u dwyn. Gall busnesau bwyd helpu i sicrhau nad ydynt yn dioddef achosion o ddwyn drwy gynnal gwiriadau diwydrwydd dyladwy gyda'u cyflenwyr a'u cwsmeriaid.

Rydym wedi cyngori [cannoedd o fusnesau ar sut i gynyddu eu gwydnwch yn erbyn twyll](#) fel y gall pobl ymddiried bod y bwyd y maent yn ei brynu a'i fwyta yn ddiogel ac yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label.”

Andrew Quinn, Pennaeth NFCU yr ASB

Dylid rhoi gwybod i'r heddlu am achosion o ddwyn ac os ydych chi'n amau twyll bwyd, rhowch wybod i'r tîm Trechu Trosedd Bwyd yn Gyfrinachol ar [food.gov.uk/report](https://www.food.gov.uk/report) neu drwy ffonio 0800 028 1180 (0207 276 8787 ar gyfer ffonau symudol a galwadau ffôn o'r tu allan i'r DU).